Creu Prydain Decach: Diwygio'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol

Ymateb Chwarae Teg i'r Ymgynghoriad

Mehefin 2011

Cyflwyniad

Mae **Chwarae Teg**, a sefydlwyd ym 1992, yn hyrwyddo, cefnogi a datblygu rôl menywod yn economi Cymru. Rydym yn gwneud hyn trwy godi ymwybyddiaeth o'r cyfraniad cadarnhaol mae menywod yn ei wneud at yr economi a chymdeithas a sicrhau bod strategaethau a pholisïau Llywodraeth Cymru yn ystyriol o'r rhwystrau sy'n wynebu menywod sydd am gyfrannu'n llawn yn y farchnad lafur.

Mae gwahanu galwedigaethol, cynrychiolaeth uchel menywod ymhlith gweithwyr tlawd, y ffaith nad yw sgiliau menywod yn cael eu defnyddio'n llawn, y bwlch cyflog rhwng y rhywiau, y prinder menywod mewn swyddi lefel uwch a rheoli a'r prinder menywod mewn swyddi gwneud penderfyniadau yn her fawr i bolisi ac ymarfer Cymru.

Mae Chwarae Teg yn cael ei ariannu gan **Lywodraeth Cymru** i ddarparu cyngor arbenigol i Weinidogion a llunwyr polisi ar y materion hyn, ac mae'n cynllunio a rheoli prosiectau sylweddol sy'n cefnogi datblygiad economi Cymru a chyfraniad menywod tuag ati. Mae hyn wedi cynnwys gweithio gyda menywod sy'n entrepreneuriaid ac annog mentrau yn eu cyfnod cychwynnol, yn ogystal â darparu hyfforddiant cyn cyflogaeth i fenywod economaidd anweithgar yn eu cymunedau.

Mae ein prosiect cyfredol, **CENEDL HYBLYG: Ffyrdd Newydd o Weithio yn yr Unfed Ganrif ar Hugain**[1], yn darparu hyfforddiant pwrpasol, achrededig ym maes rheoli sy'n sicrhau bod gan fenywod y sgiliau sydd eu hangen arnynt i fynd ymlaen i swyddi arwain. Rydym hefyd yn gweithio'n uniongyrchol gyda chyflogwyr, asiantaethau cyfeirio a darparwyr hyfforddiant i gefnogi datblygiad rhaglenni hyfforddi a chyflogaeth sy'n ystyriol o'r rhywiau, gan gynnwys ceisio sicrhau cydbwysedd rhwng bywyd preifat a gwaith. Mae Chwarae Teg yn sefydliad partner ac rydym yn gweithio gyda sefydliadau o bob sector.

[1] *Ariennir gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop a Llywodraeth Cynulliad Cymru 2008-2014*

Ymateb i'r Ymgynghoriad

Mae Chwarae Teg yn croesawu'r cyfle i ymateb i'r ymgynghoriad ar ddiwygio'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol ('y Comisiwn'). Mae'r Comisiwn yng Nghymru yn gwneud gwaith hanfodol o ran hyrwyddo cydraddoldeb a hawliau dynol yng Nghymru. Mae hefyd yn darparu cyngor a chanllawiau sy'n hollbwysig i amrywiaeth eang o randdeiliaid. Mae'r dirwedd cydraddoldebau yng Nghymru'n wahanol iawn i'r dirwedd yn y DU. Mae Llywodraeth Cymru'n datblygu agenda gydraddoldeb unigryw ac mae'n rhaid i'r Comisiwn gynnal yr hyblygrwydd sydd ei angen arno er mwyn darparu gwasanaeth gwybodaeth cynhwysfawr i sefydliadau sy'n gweithredu yng Nghymru. Mae hefyd yn hanfodol sicrhau bod gwybodaeth a chyngor ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg. Gwasanaeth wedi'i leoli yng Nghymru sydd yn y sefyllfa orau i ddarparu hyn.

Mae gan y Comisiwn bresenoldeb unigryw yng Nghymru, yn cynghori awdurdodau cyhoeddus, sefydliadau trydydd sector, cyflogwyr a'r cyhoedd. Un o brif swyddogaethau'r Comisiwn yw hwyluso Rhwydweithiau'r Cyfnewidfeydd Cydraddoldeb sydd ar waith yng Nghymru. Mae'r rhwydwaith hwn yn fforwm allweddol yng Nghymru sy'n galluogi sefydliadau i rannu a chasglu gwybodaeth.

Mae'r ymchwil a ddarperir gan y Comisiwn hefyd yn hanfodol i ddatblygu'r agenda cydraddoldebau. Er enghraifft, mae'r adolygiad tair blynedd diweddar 'Pa Mor Deg yw Prydain' yn darparu diweddariad pwysig ar gynnydd cynhwysiant cymdeithasol ym Mhrydain. Yn ogystal, mae adroddiad 'Pa Mor Deg yw Prydain' yn darparu meincnod yng Nghymru. Comisiynodd y Comisiwn yng Nghymru 'An Anatomy of Economic Inequality in Wales' a fydd yn darparu tystiolaeth a fydd yn dylanwadu ar bolisïau yn y dyfodol.[2] Mae'n hollbwysig nad yw gwerth y gwasanaethau a ddarperir gan y Comisiwn yn cael ei danbrisio. Os oes rhaid ad-drefnu, ni ddylid gwneud hynny ar draul ansawdd y gwasanaethau a ddarperir.

Cwestiynau'r Ymgynghoriad

Gweithgareddau Craidd

1. Ydych chi'n cytuno y dylid diddymu Adran 3?

Mae'r Llywodraeth yn cynnig dileu'r dyletswyddau yn Adran 3 o fframwaith statudol y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol. Pe bai'r cynigion yn sôn am ddileu Adran 3 yn unig, credwn y byddai llawer o'r meysydd sy'n peri pryder i ni yn cael sylw digonol yn Adran 8. Fodd bynnag, mae'r cynigion yn cynnwys dileu'r un meysydd yn Adran 8 hefyd. Byddai

[2] Davies, R. et al. (2011) An Anatomy of Economic Inequality in Wales (Caerdydd: EHRC)

rôl y Comisiwn yn hyrwyddo cyfle cyfartal, ynghyd â materion cydraddoldeb ac amrywiaeth, yn cael ei cholli. Mae'r Llywodraeth yn dadlau bod llawer o sefydliadau'r trydydd sector yn cyflawni'r rôl hon, a bod yna berygl o ddyblygu. Fodd bynnag, mae'r sefydliadau hyn yn canolbwyntio ar grwpiau unigryw tra bod y Comisiwn yn dod â'r gwaith hwn ynghyd ac yn hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol i bob grŵp fel cyfanrwydd. Yn ogystal, mae'r rhaglen grantiau a gynigir gan y Comisiwn yn ariannu llawer o'r sefydliadau trydydd sector hyn (e.e. Cymdeithas Lleiafrifoedd Ethnig Cymru Gyfan (AWEMA), Canolfan Cyngor ar Bopeth, Stonewall Cymru, Race Equality First a mwy). Mae'r Llywodraeth yn cynnig diddymu rhaglen grantiau'r Comisiwn ym mis Mawrth 2012. Bydd yn cyflwyno ffrwd ariannu wahanol yn ei lle, ond ni fydd hon o reidrwydd yn ariannu'r sefydliadau angenrheidiol.

2. Ydych chi'n cytuno y bydd ailfodelu'r dyletswyddau yn Adran 8 o Ddeddf Cydraddoldeb 2006 i adlewyrchu'r rôl a'r swyddogaethau a amlinellir ym mharagraff 1.9 o'r bennod hon yn helpu'r Comisiwn i ganolbwyntio ar ei swyddogaethau craidd fel rheoleiddiwr cydraddoldeb? Os nad ydych chi'n cytuno, pa swyddogaethau craidd y dylai'r Comisiwn eu cyflawni yn eich barn chi?

Mae'r Llywodraeth yn cynnig y dylai'r Comisiwn fod yn gorff rheoleiddio, gan wneud cyfraniad allweddol at orfodi Deddf Cydraddoldeb 2010. Byddai'r Comisiwn yn hyrwyddo ymwybyddiaeth o'r Ddeddf, yn darparu enghreifftiau o arferion da, yn monitro cydymffurfiaeth ac yn gwerthuso effeithiolrwydd. Credwn fod y rôl hon yn bwysig ac mai'r Comisiwn sydd yn y sefyllfa orau i'w chyflawni. Fodd bynnag, mae ailfodelu'r dyletswyddau yn Adran 8 a dileu'r holl ddyletswyddau yn Adran 3 ar yr un pryd yn golygu y byddai rhai meysydd yng nghylch gwaith y Comisiwn yn cael eu colli'n gyfan gwbl. Ni fyddai gan y Comisiwn gyfraniad i'w wneud mwyach at hyrwyddo cyfle cyfartal.

3. Ydych chi'n cytuno gyda'n cynnig i ddiwygio'r ddyletswydd yn Adran 12 fel ei bod yn:

a) nodi'r amcanion a'r canlyniadau y mae'n rhaid i'r Comisiwn fonitro cynnydd yn eu herbyn, a

Byddem yn cytuno y dylid diffinio amcanion a chanlyniadau er mwyn monitro cynnydd dros amser. Credwn hefyd y dylai mecanwaith fod ar waith i adolygu'r dangosyddion y dylid mesur cynnydd yn eu herbyn.

b) gofyn am adroddiad bob pum mlynedd yn hytrach na phob tair blynedd, i gyd-fynd â'r cylch Seneddol a galluogi adroddiadau i nodi newid ystyrlon dros amser?

Credwn fod pum mlynedd yn rhy hir i aros am adroddiadau cynnydd, ond rydym hefyd yn sylweddoli nad yw tair blynedd yn ddigon hir. Felly, byddem yn awgrymu y dylid cynhyrchu

adroddiadau bob pum mlynedd fel y cynigiwyd, ond dylai gwybodaeth fod ar gael, ar gais, fel y gall llunwyr polisi lunio strategaeth ar adegau priodol yn y cylch Seneddol.

4. Ydych chi'n cytuno y bydd y cynigion a fyddai'n caniatáu i'r Comisiwn ganolbwyntio ar ei swyddogaethau craidd, yn ogystal â'r mesurau a amlinellir ym Mhennod 3 i wneud y Comisiwn yn fwy atebol am ei berfformiad, yn ei helpu i gyflawni ei gylch gwaith ar hawliau dynol? Os nad ydych chi'n cytuno, pa newidiadau pellach ydych chi'n eu hawgrymu?

Os bydd cylch gwaith y Comisiwn yn cael ei gyfyngu, yna mae'n gwneud synnwyr y bydd hi'n bosibl darparu gwasanaeth â mwy o ffocws. Fodd bynnag, mae hefyd yn golygu y bydd rhai gwasanaethau'n cael eu colli. Os caiff y newidiadau arfaethedig eu derbyn, bydd y Comisiwn yn rhoi'r gorau i hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth a chyfle cyfartal. Ar hyn o bryd, mae'r Comisiwn yn darparu cyngor a gwybodaeth, ynghyd ag ymchwil ddylanwadol. Bydd y newidiadau arfaethedig yn effeithio ar y swyddogaethau hyn.

5. Ydych chi'n cytuno y dylem ddileu swyddogaeth cysylltiadau da y Comisiwn a'r pŵer cysylltiedig yn Adran 19? Os nad ydych chi'n cytuno, pam?

Mae swyddogaeth cysylltiadau da y Comisiwn yn darparu llawer o wasanaethau defnyddiol fel y rhaglen grantiau ac ymchwil fel map o fylchau neu adolygiad tair blynedd. Mae'r Llywodraeth yn poeni am y potensial i ddyblygu gwaith a wneir gan y sefydliadau gwirfoddol fel Stonewall o ran hyrwyddo cysylltiadau da. Fodd bynnag, mae Stonewall yn un o lawer o sefydliadau'r trydydd sector sy'n derbyn cyllid o raglen grantiau'r Comisiwn, a fydd yn dod i ben. Dylid hefyd gydnabod mai rôl y Comisiwn yw darparu'r darlun "cydraddoldeb a hawliau dynol" cyffredinol gan y bydd angen asiantaethau penodol yr un fath, yn cynrychioli grwpiau ymylol, i gyflawni eu swyddogaethau cysylltiadau da eu hunain.

Gweithgareddau nad ydynt yn Weithgareddau Craidd

6. Ydych chi'n credu y dylai'r Llywodraeth ddiddymu pŵer y Comisiwn i wneud darpariaeth ar gyfer gwasanaethau cymodi fel rhan o'r broses o ganiatáu i'r Comisiwn ganolbwyntio ar ei swyddogaethau craidd?

Mae'r Llywodraeth yn cyflwyno dadl gref dros ddileu gwasanaethau cymodi o gylch gwaith y Comisiwn. Er eu bod yn rhan ddefnyddiol o gylch gwaith y Comisiwn, os yw asiantaethau eraill yn gallu darparu'r gwasanaethau hyn mewn ffordd fwy costeffeithiol, mae'n debyg y byddai'n gwneud synnwyr iddynt wneud hynny. Mae'r Llywodraeth yn awgrymu y gall y Llinell Gymorth Cyfryngu Genedlaethol ddarparu'r gwasanaeth a fydd yn cael ei golli a, gan mai dyma yw hanfod eu gwaith, byddent yn gallu cynnig y gwasanaeth hwn yn fwy effeithiol na'r Comisiwn.

7. Ydych chi'n cytuno gyda'r cynigion a amlinellir i ddarparu system newydd o wybodaeth, cyngor a chymorth? Os nad ydych chi'n cytuno, pa newidiadau i'r system y byddech chi'n eu hargymell?

Mae'r Comisiwn yng Nghymru'n cynnig gwybodaeth, cyfarwyddyd a chymorth arbenigol sy'n benodol i Gymru. Mae'r Comisiwn yn gallu cynghori ar bolisïau yng Nghymru a chynnig gwasanaeth dwyieithog sy'n hanfodol yng Nghymru. Mae Chwarae Teg yn credu y dylai'r gwasanaeth hwn barhau fel Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Cymru gan ei fod yn darparu'r gwasanaeth uchod i'r gymuned ehangach, ond yn gallu ymgynghori ledled Cymru, gan ystyried amrywiaeth ddiwylliannol, cymdeithasol ac economaidd wrth ymateb i ymgynghoriadau yn y DU. Er mwyn datblygu'r ddarpariaeth gyfredol, credwn y gallai'r Comisiwn wneud mwy i ymgysylltu â'r sector preifat. Mae'r Comisiwn yn gwneud llawer o waith gyda'r sectorau cyhoeddus a gwirfoddol ond mae angen gwneud mwy o waith i addysgu cyflogwyr y sector preifat am faterion cydraddoldeb a hawliau dynol.

8. Sut beth fyddai gwasanaeth cyngor cyffredinol a gwybodaeth costeffeithiol newydd sy'n canolbwyntio ar y dinesydd?

Yn ein barn ni, byddai gwasanaeth newydd sy'n canolbwyntio ar y dinesydd yn ymgorffori sawl swyddogaeth. Byddai'r swyddogaethau hyn yn cynnwys porth gwybodaeth ar y we a llinell gymorth. Dylai'r cyfleuster hefyd allu cynnal cynadleddau a digwyddiadau i ddosbarthu gwybodaeth a dod â rhanddeiliaid ynghyd. Rydym yn gobeithio y bydd y Comisiwn yn parhau i gynnal Rhwydwaith y Cyfnewidfeydd Cydraddoldeb. Mae'r rhwydweithiau hyn yn hwyluso trafodaethau ymhlith sefydliadau sy'n rhoi blaenoriaeth i barhau i wella gwasanaethau cydraddoldeb a hawliau dynol sy'n canolbwyntio ar y dinesydd. Mae'r rhwydwaith hwn yn fforwm allweddol yng Nghymru sy'n galluogi cyrff sector cyhoeddus a sefydliadau gwirfoddol i rannu a chasglu gwybodaeth. Mae gwasanaeth cyngor cyffredinol y Comisiwn yn weithredol trwy ei linell gymorth. Mae'r llinell gymorth yn darparu cyngor a chymorth gwerthfawr i sefydliadau ac unigolion. Ar ba bynnag ffurf y bydd y gwasanaeth yn cael ei gyflwyno yn y dyfodol, mae'n hollbwysig bod gwybodaeth a chymorth ar gael yn y Gymraeg.

9. Beth yw'r ffordd orau y gall y Llywodraeth ddarparu addysg gyhoeddus ar wahaniaethu a hawliau dynol, gan dargedu'r grwpiau mwyaf difreintiedig?

Mae'n hanfodol darparu gwybodaeth ar lawr gwlad trwy sefydliadau diduedd fel ysgolion, Cymunedau yn Gyntaf ac ati. Gallai'r Comisiwn ddarparu adnoddau fel 'Stryd Urddas', i'w defnyddio gan ysgolion, y gwasanaeth gyrfaoedd a grwpiau eraill. Gall sefydliadau hefyd sicrhau bod yr adnoddau hyn ar gael trwy eu gwefannau trwy lwytho neu ddarparu dolenni.

10. A oes unrhyw beth sy'n gwneud achosion o wahaniaethu yn wahanol i achosion eraill sy'n gymwys i dderbyn cymorth cyfreithiol sifil a fyddai'n cyfiawnhau mwy o gyllid cyhoeddus ar gyfer y cymorth?

Mae cymorth cyfreithiol sifil yn allweddol i sicrhau bod y sectorau hynny mewn cymdeithas sy'n "anweledig" neu nad oes ganddynt wasanaeth eiriolaeth yn cael eu trin yn deg. Os bydd angen dilyn achosion gwahaniaethu, dylid sicrhau mynediad i gymorth cyfreithiol sifil os bydd y dulliau cyflafareddu eraill yn methu.

11. Ydych chi'n cytuno gyda'r cynnig y dylai'r Cyngor Defnyddwyr Trafnidiaeth Awyr (AUC), sy'n rhan o'r Awdurdod Hedfan Sifil (CAA), ddarparu'r gwasanaeth trafod cwynion ar gyfer teithwyr anabl yn y dyfodol? Os nad ydych chi'n cytuno, pam?

Rydym yn cytuno bod y Cyngor Defnyddwyr Trafnidiaeth Awyr mewn sefyllfa dda i drafod cwynion gan deithwyr anabl cyn belled â bod ganddo'r adnoddau angenrheidiol i wneud hynny. Fodd bynnag, credwn y dylai'r grŵp rhanddeiliaid gael gwybod am y newid hwn ac y dylid ei hyrwyddo'n rheolaidd.

12. Beth yw'r ffordd fwyaf effeithiol y gallai ffrwd ariannu newydd y Llywodraeth helpu sefydliadau cymdeithas sifil i hyrwyddo cydraddoldebau a hawliau dynol a mynd i'r afael â gwahaniaethu?

Byddem yn poeni pe bai rhaglen grantiau'r Comisiwn yn cael ei dileu'n gyfan gwbl. Fodd bynnag, rydym o'r farn mai cyfrifoldeb y Llywodraeth, mewn cydweithrediad agos â'r Comisiwn, yw sicrhau cywirdeb a thryloywder wrth ddyrannu cyllid i'r sefydliadau hynny sy'n dibynnu ar gyllid i gynrychioli eu haelodau.

Sicrhau mwy o Werth am Arian ac Atebolrwydd

13. Ydych chi'n cytuno gyda'n cynigion deddfwriaethol i wella tryloywder, atebolrwydd a gwerth am arian y Comisiwn?

Mae adolygiad diweddar y Comisiwn wedi nodi'r angen i sicrhau mwy o werth am arian cyhoeddus ac i weithio'n agos gyda gweinyddiaethau datganoledig Cymru a'r Alban i gyflawni dyletswyddau cydraddoldeb unigryw. Credwn fod y Comisiwn eisoes yn darparu gwerth da am arian. Os bydd rhaid i'r Comisiwn gyflwyno ei gynllun busnes i'r Senedd, bydd yn colli ei annibyniaeth.

Ein Hagwedd at Ddiwygio a'r Camau Nesaf

14. Ydych chi'n cytuno gyda'n hagwedd at ddiwygio deddfwriaethol ac anneddfwriaethol?

Rydym yn cytuno gyda'r agwedd mewn egwyddor gan ein bod yn cydnabod yr angen i leihau costau a rheoli cyllidebau ac, felly, yr angen i adolygu gwaith a ffocws y Comisiwn.

Fodd bynnag, mae angen talu am wasanaethau hanfodol o hyd ac mae'r Comisiwn yn darparu llawer o'r rhain, felly mae angen iddo gael ei ariannu'n ddigonol i allu gwneud hynny'n effeithiol. Yn ein barn ni, mae'r Comisiwn yn cyflawni gwaith gwerthfawr tu hwnt, yn enwedig yng Nghymru.

I Gloi

Mae'r Comisiwn yn cyflawni ei gylch gwaith o ran hyrwyddo a gorfodi cydraddoldeb a hawliau dynol ym Mhrydain trwy gylchlythyrau a gweithgareddau cyfathrebu rheolaidd. Mae'r Comisiwn yn rhoi'r newyddion diweddaraf i sefydliadau, busnesau, gwleidyddion ac ati am faterion cydraddoldeb ac amrywiaeth. Mae'r Comisiwn yn comisiynu ymchwil ac yn darparu gwybodaeth am fynediad, adroddiadau a phecynnau cymorth i helpu i roi arferion gorau ar waith ac i lunio polisïau seiliedig ar dystiolaeth.

Mae'r Llywodraeth yn cydnabod bod y Comisiwn yn gwneud cyfraniad allweddol at roi ei strategaethau cydraddoldeb ac amrywiaeth ar waith. Hyd yn oed yn yr hinsawdd economaidd sydd ohoni, nid yw Cymru na Phrydain yn gyffredinol am beryglu ei henw da fel un o'r gwledydd tecaf yn y byd na cholli'r cynnydd y mae wedi'i wneud dros y blynyddoedd diwethaf.

Mae Chwarae Teg wedi ymrwymo i weithio gyda'r Comisiwn yng Nghymru ac ar lefel y DU i fynd i'r afael â gwahaniaethu ac i sicrhau bod menywod yng Nghymru'n cael eu trin â pharch ac urddas bob amser.

I gael rhagor o wybodaeth gan Chwarae Teg, cysylltwch â:

- Beverley Pold – bev.pold@chwaraeteg.com
- Christine O'Byrne – christine.o'byrne@chwaraeteg.com
- www.chwaraeteg.com

neu

Chwarae Teg
Llys yr Angor
Ffordd Keen
Caerdydd
CF24 5JW

029 2047 8900